# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)08-11

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 8 Mawrth 2011
**Amser:** 8.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Deddfwriaeth
Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)07-11 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 1 Mawrth 2011**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)08-11(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn 17.00 ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 8 a 9 Mawrth 2011.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf - BC(3)08-11(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)07-11(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Pwyllgorau

**Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog – cais i gynnal cyfarfod pwyllgor ffurfiol (BC(3)08-11(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i gynnal cyfarfod ffurfiol ar 22 Mawrth 2011

### 5. Busnes arall

**(i) Y cynigion diweddar i foderneiddio gwasanaeth Gwylwyr y Glannau - llythyr gan Mike Penning AS - BC(3)08-11(p5)**

**Llythyr gan y Prif Weinidog at Mike Penning AS – BC(3)08-11(p5a)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Mike Penning AS (Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth) yn cynnig cynnal sesiwn i'r Aelodau i roi gwybodaeth iddynt am broses ymgynghori Llywodraeth y DU ynghylch moderneiddio gwasanaeth Gwylwyr y Glannau. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Gweinidog i gyfarfod y Cynulliad llawn.

**(ii) Busnes y Cynulliad yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad ac wedyn – BC(3)08-11(p6)**

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau cyflwyno a ganlyn ar gyfer y cyfnod cyn y diddymiad ac wedyn:

ni chaiff dogfennau eu derbyn i'w cyflwyno os byddant yn cyrraedd ar ôl 5pm (pan ddaw busnes i ben) ddydd Iau 31 Mawrth;

y diwrnod olaf ar gyfer derbyn Cwestiynau Ysgrifenedig fydd dydd Gwener 18 Mawrth.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**